# Canllawiau i Ymgeiswyr ar Ddatgelu Gwybodaeth am Rybuddion ac Euogfarnau yn eu Ceisiadau

Sefydliad addysgol yw Coleg Gŵyr Abertawe sy’n darparu addysg i blant ac oedolion agored i niwed. Felly, bydd angen i’r Coleg asesu eich addasrwydd ar gyfer y rôl rydych chi’n ymgeisio amdani, sy’n golygu bod gennym hawl i ofyn cwestiynau i chi am eich cofnod troseddol. Bydd gofyn i chi ddatgelu gwybodaeth benodol sy’n ymwneud â’ch rhybuddion troseddol a’ch euogfarnau. Rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth am euogfarnau troseddol wedi’u disbyddu a heb eu disbyddi (heblaw am euogfarnau gwarchodedig) yn ogystal â rhybuddion wedi’u disbyddu a heb eu disbyddu (heblaw am rybuddion gwarchodedig).

Yn ôl y gyfraith, does dim angen i chi rhannu gwybodaeth am rybuddion ac euogfarnau gwarchodedig. I bennu a yw’ch rhybudd neu euogfarn yn warchodedig ac a oes angen i chi ei ddatgelu yn eich cais ai peidio, bydd angen i chi ddarllen deddfwriaethau perthnasol, gan gynnwys Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) Gorchymyn 1975 (Diwygiad) (Lloegr a Chymru) Gorchymyn 2013.

Bydd angen datgelu pob rhybudd ac euogfarn penodedig mewn perthynas â throseddau treisgar a rhywiol difrifol, ynghyd â throseddau eraill sy’n ymwneud â phlant ac oedolion agored i niwed. Anogir ymgeiswyr i gyfeirio at y rhestr helaeth o droseddau o’r fath sydd ar wefan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd y rhestr o droseddau yn cael ei diweddaru i adlewyrchu newidiadau parhaus i ddeddfwriaethau.

Os cynigir swydd i chi, gallai methu â datgelu euogfarnau neu rybuddion heb eu hamddiffyn arwain at gamau disgyblu a diswyddiad o’r Coleg. Felly, od ydych yn ansicr ynghylch sut mae’r gyfraith yn berthnasol i chi, fe’ch anogir i geisio cyngor cyfreithiol cyn gwneud cais.

Os ydych chi’n gwneud cais am swydd sy’n gofyn am Ddatgeliad (yn ôl y gyfraith) a’ch bod yn llwyddo i dderbyn cynnig cyflogaeth, byddwch yn destun gwiriad cofnodion troseddol gan y Gwasanaeth Datgelu a

Gwahardd (DBS). Bydd penodiadau'n amodol ar basio'r gwiriad hwn (ac unrhyw wiriadau eraill) yn llwyddiannus.

Dylid ystyried y cwestiynau isod i asesu a yw'n ofynnol i chi (yn ôl y gyfraith) ddatgelu euogfarn neu rybudd yn eich ffurflen gais.

## Adran A:

Os ydych chi wedi derbyn rhybudd neu euogfarn yn 18 oed neu'n hŷn, bydd y cwestiynau canlynol yn penderfynu a oes angen i chi eu datgelu yn eich ffurflen gais.

### Cwestiynau i asesu a oes angen i chi ddatgelu euogfarn(au):

- C1. A yw'r euogfarn yn drosedd rhestredig*?
- C2. A wnaethoch chi dderbyn dedfryd o garchar neu ddedfryd o wasanaeth?
- C3. A ydych wedi eich cael yn euog o unrhyw drosedd o'r blaen?

Os mai 'ydw' oed eich ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, bydd angen i chi ddatgelu eich euogfarn yn eich ffurflen gais.

Os mai 'nac ydw' oedd eich ateb i'r cwestiynau uchod, atebwch y cwestiynau canlynol:

- C4. A oes 11 mlynedd neu fwy wedi mynd heibio ers dyddiad yr euogfarn?

Os mai 'Nac Oes' oedd eich ateb i C4 (hynny yw, mae llai na 11 mlynedd wedi bod ers i chi dderbyn eich euogfarn), bydd dal angen i chi ddatgelu'r euogfarn yn eich ffurflen gais.

## Cwestiynau i asesu a oes angen i chi ddatgelu rhybudd(ion):

- C1. A yw’r rhybudd yn drosedd rhestredig?

Os mai ‘ydy’ oed eich ateb i C1, bydd angen i chi ddatgelu’r rhybudd yn eich ffurflen gais.

Os mai ‘nac ydy’ oedd eich ateb i C1 ac os oedwch yn 18+ pan dderbynioch y rhybudd, atebwch y cwestiwn canlynol:

- C2: Oes 6 blynedd wedi mynd heibio ers i chi dderbyn y rhybudd?

Os mai ‘nac oes’ oedd eich ateb i gwestiwn 2, bydd angen i chi ddatgelu eich rhybudd yn eich ffurflen gais.

# Adran B:

Os ydych chi wedi derbyn rhybudd neu euogfarn pan oeddech o dan 18 oed, bydd y cwestiynau canlynol yn penderfynu a oes angen i chi eu datgelu yn eich ffurflen gais.

## Cwestiynau i asesu a oes angen i chi ddatgelu euogfarn(au):

- C1. A yw’r euogfarn yn drosedd rhestredig*?
- C2: A wnaethoch chi dderbyn dedfryd o garchar neu ddedfryd o wasanaeth?
- C3. A ydych wedi eich cael yn euog o unrhyw drosedd o’r blaen?

Os mai ‘ydw’ oed eich ateb i unrhyw un o’r cwestiynau uchod, bydd angen i chi ddatgelu eich euogfarn yn eich ffurflen gais.

Os mai ‘nac ydw’ oedd eich ateb i’r cwestiynau uchod, atebwch y cwestiynau canlynol:

- C4. A oes 5 mlynedd a 6 mis neu fwy wedi bod ers dyddiad yr euogfarn?

Os mai 'Nac Oes' oedd eich ateb i C4 (hynny yw, mae'n llai na 5 mlynedd a 6 mis ers i chi dderbyn eich euogfarn), bydd dal angen i chi ddatgelu'r euogfarn yn eich ffurflen gais.

## Cwestiynau i asesu a oes angen i chi ddatgelu rhybudd(ion):

- C1. A yw'r rhybudd yn drosedd rhestredig?

Os mai 'ydy' oed eich ateb i C1, bydd angen i chi ddatgelu eich rhybudd.

Os mai 'nac ydy' oedd eich ateb i C1, atebwch y cwestiwn canlynol:

- C2: Oes 2 flynedd wedi mynd heibio ers i chi dderbyn y rhybudd?

Os mai 'nac oes' oedd eich ateb i gwestiwn 2 (hynny yw, does dim 2 flynedd wedi bod ers eich rhybudd), bydd angen i chi ddatgelu eich rhybudd yn eich ffurflen gais.

# Troseddau Rhestredig*

Bydd angen datgelu pob rhybudd ac euogfarn penodedig mewn perthynas â throseddau treisgar a rhywiol difrifol, ynghyd â throseddau eraill sy'n ymwneud â phlant ac oedolion agored i niwed. Anogir ymgeiswyr i gyfeirio at y rhestr helaeth o droseddau o'r fath sydd ar wefan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd y rhestr o droseddau yn cael ei diweddaru i adlewyrchu newidiadau parhaus i ddeddfwriaethau.